



## Diwygio'r Senedd

5 Gorffennaf 2023

### Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 29 Mai, pan wnaethoch ofyn:

*Please disclose a letter sent to the First Minister Mark Drakeford, and its annexes, about Senedd reform, referred to in these Commission draft minutes*

*<https://business.senedd.wales/ieListDocuments.aspx?CId=258&MId=13280&Ver=4>*

Yn ychwanegol at ymestyn yr amser a roddir i ystyried y budd cyhoeddus (a gyflewyd i chi ar 22 Mehefin), rydym bellach mewn sefyllfa i ymateb yn llawn i'ch cais.

Gallaf gadarnhau bod gennym y wybodaeth rydych yn gofyn amdani. Fodd bynnag, ni wneir datgeliad oherwydd bod y wybodaeth sydd gennym wedi'i heithrio rhag ei datgelu o dan adrannau 36(2)(b)(i) a 36(2)(c), Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae rhagor o fanylion am yr eithriad a gymhwysir, a'r rhesymau dros ei gymhwyso, i'w gweld yn yr [atodiad](#) i'r llythyr hwn.

Yn gywir

### Buddug Saer

### Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth Senedd Cymru

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](mailto:Information-request@senedd.wales)

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru  
Llywodraethu a Sicrwydd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

## **Atodiad**

Mae adran 36(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn nodi fel a ganlyn:

*(2) Information to which this section applies is exempt information if, in the reasonable opinion of a qualified person, disclosure of the information under this Act-*

*[...]*

*(b) would, or would be likely to, inhibit-*

*(i) the free and frank provision of advice, or*

*[...]*

*(c) would otherwise prejudice, or would be likely otherwise to prejudice, the effective conduct of public affairs.*

Mae adran 36(2)(b)(i) a (2)(c) ar gael pan fyddai datgelu'r wybodaeth, ym marn resymol y person cymwys, yn atal neu'n debygol o atal cyngor didwyll a rhydd rhag cael ei ddarparu neu fel arall yn rhagfarnu ymddygiad effeithiol materion cyhoeddus.

Llywydd y Senedd yw'r person cymwys at ddibenion adran 36 y Ddeddf. Mae wedi ystyried y wybodaeth berthnasol ac wedi ffurfio'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth y gwneir cais amdani yn cael yr effaith a nodir uchod. Mae nifer o resymau yn sail i'w barn gan gynnwys y rhai sy'n dilyn isod.

### **Adran 36(2)(b)(i)**

Bwriad y llythyr oedd cael ei drin yn gyfrinachol ac iddo gael ei weld gan neb ond nifer gyfyngedig iawn o fewn y Comisiwn ac o fewn Llywodraeth Cymru. Byddai datgeliad yn cael 'effaith iasol' ar allu'r Comisiwn i ddarparu cyngor yn y dyfodol drwy atal y ffordd y gall fynegi ei farn a'i gyngor yn llawn a chyda gonestrwydd. Mae'r mater o ddiwygio'r Senedd yn 'fyw' yn yr ystyr ei fod yn digwydd nawr ac nid yw penderfyniadau allweddol wedi'u gwneud eto. O ystyried ei gamau cynnar, efallai y bydd angen darparu cyngor pellach yn y dyfodol. O'r herwydd, mae'n hanfodol bod y sianel breifat yn parhau'n hyfyw i gefnogi a hwyluso llif y cyngor rhydd a didwyll. Byddai unrhyw rwystr i'r llif rhydd hwnnw yn lleihau ansawdd y cyngor ac yn cael effaith gyfatebol ar wneud penderfyniadau.

### **Adran 36(2)(c)**

Mae'n briodol y dylid datblygu polisi diwygio'r Senedd o fewn sianel breifat, gyfrinachol a diogel, h.y. mewn 'man diogel' oddi wrth heriau, aflonyddwch ac ymyrraeth allanol.

Byddai datgelu'r llythyr yn difetha'r gofod diogel hwnnw mewn sawl ffordd, gan gynnwys y canlynol.

Fel y nodir uchod, mae penderfyniadau allweddol eto i'w gwneud; gallai cyhoeddi gwybodaeth - cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth ddrafft berthnasol - roi golwg gamarweiniol ar gynigion diwygio'r Senedd a chreu pryderon, boed ymysg y cyfryngau neu'r cyhoedd ehangach. O ganlyniad, byddai hyn yn arwain at ddargyfeirio adnoddau o fewn y Comisiwn (ac o bosibl yn Llywodraeth Cymru hefyd) drwy ddefnyddio adnoddau i reoli effeithiau datgelu.

Maes o law, bydd yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil hwyluso diwygio'r Senedd ddarparu deunydd ategol penodol ochr yn ochr â'r Bil. Bydd y deunydd hwn yn nodi'r costau disgwylidig a phwy fydd yn gyfrifol amdanynt. Mae'n hanfodol bod yr elfennau hynny'n cael eu craffu yn ôl y bwriad, o ran amseru'r gwaith craffu hwnnw a'r prosesau i'w dilyn er mwyn ei gyflawni. Byddai datgeliad ar hyn o bryd yn dileu'r gwaith craffu o'r sianeli sefydledig ac yn cael effaith niweidiol ar y broses ddemocrataidd.

Mae gofyniad statudol ar y Comisiwn i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Senedd i gyflawni ei swyddogaethau. Byddai ymyrryd â'r sianel breifat, ddiogel yn cael effaith andwyol ar allu'r Comisiwn i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'r Senedd a thrwy hynny rwystro ei gallu i gyflawni ei swyddogaeth a'i diben statudol.

Yn ogystal, y bwriad oedd i gyfyngu ar gylchrediad y llythyr ac ni fwriadwyd ei gyhoeddi fyth. Byddai datgelu yn cael gwared ar gyfrinachedd arfaethedig y Comisiwn (a Llywodraeth Cymru).

Ymhellach, ar gyfer gwaith diwygio'r Senedd, mae angen cydweithrediad effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn, fel un o'r rhanddeiliaid allweddol. Gwnaed ymdrechion sylweddol gan bartion perthnasol i feithrin perthynas sy'n gydnaws â hynny, ac yn ei chefnogi. Byddai datgelu'r llythyr yn cael effaith niweidiol ar y berthynas a allai, yn ei dro, leihau ansawdd y ddeddfwriaeth ddrafft a gyflwynir i'r Senedd.

Mae adran 36 yn eithriad amodol. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid cynnal prawf budd cyhoeddus. Diben y prawf hwn yw penderfynu a yw budd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â pheidio â datgelu gwybodaeth yn drech na budd cyhoeddus sydd ynghlwm wrth ei datgelu.

Mae barn y person cymwys yn rhoi pwysau o blaid cynnal yr eithriad. Yn yr achos hwn, mae'r Llywydd wedi dod i'r casgliad y byddai datgelu 'yn cael' yr effeithiau a restrir yn is-adrannau (2)(b)(i) a (2)(c). Mae hyn yn cario pwysau sylweddol; pe bai'r Llywydd wedi dod

i'r casgliad y byddai datgelu 'yn debygol' o gael yr effeithiau hynny, byddai pwysau'r farn honno wedi'i lleihau (gan fod hwn yn drothwy is).

Mae nifer o'r rhesymau sy'n sail i farn y Llywydd bod yr adran 36 wedi ei chynnwys hefyd yn pwyso o blaid cynnal yr eithriad. Mae er budd y cyhoedd i sicrhau y gall y Comisiwn barhau i gyfrannu'n llawn at fater diwygio'r Senedd drwy beidio amharu ar y gofod diogel sy'n cefnogi ei gallu i archwilio materion ac opsiynau, llunio cyngor, a sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau yn y ffordd orau bosibl. Mae hefyd er budd y cyhoedd i sicrhau y gall y Comisiwn gyfrannu'n llawn yn y dyfodol at fater diwygio'r Senedd drwy ddiogelu ei allu i roi cyngor yn rhydd. Mae'n hanfodol atal effaith iasol drwy sicrhau y gall y Comisiwn barhau i gyfrannu'n llawn at fater diwygio'r Senedd. Mae hefyd er budd y cyhoedd i atal effaith iasol ar barodrwydd cyffredinol y Comisiwn i roi cyngor i eraill yn y dyfodol. Mae dadleuon 'effaith iasol' a dadleuon 'lle diogel' ar eu cryfaf pan fo materion yn 'fyw'; mae hyn yn sicr yn wir mewn perthynas â diwygio'r Senedd.

Mae er budd y cyhoedd i osgoi'r posibilrwydd y bydd adnoddau'n cael eu dargyfeirio yn dilyn datgeliad anhymig o wybodaeth. Yn hyn o beth, mae'n arwyddocaol bod y ffigurau a'r cyfrifiadau, o ganlyniad i nifer o benderfyniadau allweddol eto i'w gwneud, o reidrwydd yn ddamcaniaethol eu natur.

Bydd y costau sy'n gysylltiedig â model diwygio'r Senedd a gyflwynir yn y pen draw gan yr Aelod sy'n gyfrifol yn cael eu cyhoeddi, maes o law, pan gaiff ei ddeddfwriaeth ei gyflwyno i'r Senedd. Bydd gwaith craffu ar y costau cyhoeddedig yn rhan annatod o'r broses ddeddfwriaethol. Mae er budd y cyhoedd i beidio amharu ar broses ddeddfwriaethol y Senedd drwy sicrhau bod gwaith craffu ar ddeddfwriaeth ddrafft yn digwydd ar yr adeg briodol ac o fewn y sianelau priodol.

Mae hefyd er budd y cyhoedd i sicrhau cyfrinachedd y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid (y mae'r Comisiwn yn un ohonynt) wrth iddi ddatblygu ei deddfwriaeth ddiwygio'r Senedd. Mae budd cyhoeddus cynhenid mewn cefnogi cyfrinachedd, pryd a lle mae ei angen.

At hynny, mae er budd y cyhoedd i osgoi'r potensial o ddifrodi'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn. Mae hyn o arwyddocâd arbennig o ystyried natur ac amseru rhaglen ddiwygio'r Senedd. Byddai'n groes i'r budd cyhoeddus i gymryd camau a fyddai'n effeithio ar y berthynas hon.

Yn gyffredinol, mae'r pwyntiau uchod yn sail i allu'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaeth a'i bwrpas. Byddai'n groes i'r budd cyhoeddus i gymryd unrhyw gam a allai gael effaith negyddol ar hynny.

Fodd bynnag, mae dadleuon o blaid datgelu wrth gwrs. Mae budd cyhoeddus cynhenid mewn tryloywder, didwylledd ac atebolrwydd o ran gwaith y Llywydd a'r Comisiwn ac, yn benodol, o ran y ffordd y mae'r Comisiwn yn rhagweld newidiadau'n cael eu gwneud yng nghyd-destun diwygio'r Senedd a chost bosibl y rheini.

Mae budd cyhoeddus cynhenid hefyd mewn sicrhau tryloywder, didwylledd ac atebolrwydd i hyrwyddo a sicrhau ansawdd y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r sector cyhoeddus yn ehangach. Yn yr achos hwn, bwriad y cyngor yn y llythyr yw hysbysu (a thrwy hynny wella ansawdd) penderfyniadau Llywodraeth Cymru.

Mae budd cyhoeddus penodol mewn diwygio'r Senedd o ystyried ei maint o ran ei gallu i effeithio ar fywydau pawb sy'n byw yng Nghymru.

Ymhellach, mae budd cyhoeddus cynhenid mewn sicrhau bod gwybodaeth ar gael a allai lywio dadl ym maes diwygio'r Senedd.

Er bod ffactorau sylweddol o blaid datgelu, nid ydynt yn ddigonol, y tro hwn, i orbwysu'r rhai o blaid cynnal yr eithriad. O'r herwydd, wrth bwysu a mesur pob un o'r uchod, ystyrir bod y budd cyhoeddus yn pwyso o blaid cynnal yr eithriad.